

Cyfoeth Naturiol Cymru

Ar y cyntaf o Ebrill sefydlwyd yr un corff amgylcheddol newydd ar gyfer Cymru, sef Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae swyddogaethau tri sefydliad sydd wedi bod yn cyfrannu tuag at waith y Bartneriaeth Bioamrywiaeth yn Sir Benfro (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru) wedi cael eu trosglwyddo i'r corff newydd.

Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod cyfoeth naturiol Cymru'n cael ei gynnal, ei wella a'i ddefnyddio yn gynaliadwy. Mae dyletswyddau'r Asiantaeth yn amrywio o ddiogelu'r holl safleoedd cydnabyddedig pwysig sy'n cael eu diogelu drwy statud er mwyn gwarchod natur yn ein sir, i reoli coetir a chyhoeddi trwyddedau pysgota â gwialen.



Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yw prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd, sy'n sicrhau bod cyfoeth naturiol Cymru'n cael ei ddiogelu'n gynaliadwy er budd pobl, yr economi a bywyd gwyllt.

Bydd staff Cyfoeth Naturiol Cymru'n dal i gyfrannu'n helaeth at waith Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro fel yr oeddent yn gwneud yn eu sefydliadau blaenorol perthynol ac edrychwn ymlaen i weithio mewn cysylltiad agos â hwy yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru: <http://cyfoethnaturiolcymru.gov.uk>

Ant Rogers

Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth


PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP



PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO

Cyrol 10 Rhifyn 2
Haf 2013

Yn y rhifyn hwn



Cyfoeth Naturiol Cymru
Tudalen 1

Ffwng *Cryptomyces maximus*
Tudalen 2

DVD am Gaiacio Mor yng
Nghmru
Tudalen 3

Y Cynllun Gwenyn
Tudalennau 3 & 4

Amffibiad ac Ymlusgiad yn
cael Help Llaw
Tudalen 5

Clefyd Coed Ynn
Tudalen 5

Cyfarfod Partneriaeth
Bioamrywiaeth Sir Benfro
Tudalen 6

Arolwg Gerddi 2013
Tudalennau 6 ac 14 & 15

Cynllun Datblygu Newydd I
Gyngor Sir Benfro
Tudalen 7

Arweiniad I Gapiau Cwyr
Tudalen 7

Digwyddiadau
Tudalennau 8 - 13

Manylion Cysylltu
Tudalen 16

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Tudalen 1



Ffwng *Cryptomyces maximus*

Mae'r ffwng *Cryptomyces maximus* (*Willow Blister*), sydd mewn perygl difrifol yn fyd-eang, wedi'i gofnodi yn y DU ers tua 200 mlynedd. Nid yw erioed wedi bod yn gyffredin, ond erbyn hyn mae'n ymddangos ei fod yn brin iawn.

Fel y nodwyd mewn rhifyn blaenorol o'r Cylchlythyr hwn dim ond mewn dau leoliad y mae wedi'i gofnodi yn Ewrop: gogledd Sweden yn 2009 a Sir Benfro yn 1987 (a chadarnhawyd ei fod yn dal i fodoli yno rhwng 2008 a 2013). Gwnaethpwyd y cofnod cyntaf yn Sir Benfro ym mis Mai 1987 pan ddarganfu aelodau o Gymdeithas Fycolegol Prydain y ffwng ar Gomin Dowrog.

Mae aelodau o Rwydwaith Cofnodi Ffwng Sir Benfro wedi bod yn cadw golwg arno er 2008, ac yn edrych am y corff hadol, sydd fwyaf amlwg yn niwedd y gaeaf (diwedd Chwefror/ dechrau Mawrth).

Yn 2013 cynhaliwyd ymweliadau cadw golwg gan aelodau o'r Rhwydwaith, sef David Harries (Cofnodwr Ffyngau'r Sir), Jane Hodges (Ecolegydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) a Trevor Theobald (Ecolegydd Cyngor Sir Penfro). Yn ogystal ag edrych am bresenoldeb/absenoldeb y rhywogaeth, a pha mor gyffredin ydyw yn y lleoliadau y gwyddys amdanynt yng ngogledd-orllewin Sir Benfro, ymwelwyd â safleoedd posibl eraill lle mae'r rhywogaeth gynnal yn tyfu (helyg – yn enwedig *Salix atrocinerea*) mewn ymdrech i ganfod lle mae cynefin y rhywogaeth yn y sir.

Arweiniodd tri o'r ymweliadau hyn at ddarganfod safleoedd newydd ar gyfer y ffwng – Gwarchodfa Cors Llangloffen, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Llangloffen a Gwarchodfa Rhos Wdig, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru.

Yn dilyn asesiad amodol gan yr Undeb Rhyngwladol er Gwarchod Natur cafodd y rhywogaeth ei chategoreiddio fel rhywogaeth sydd Mewn Perygl Difrifol yn Fyd-eang (Anon./ IUCN 2011), asesiad a gafodd ei gadarnhau yn dilyn hynny drwy gynnwys *Cryptomyces maximus* mewn rhestr o'r 100 rhywogaeth sydd

dan y bygythiad mwyaf yn fyd-eang (Baillie & Butcher, 2012).

Mae *Cryptomyces maximus* yn cael ei ddsbarthu fel ffwng sydd Dan Fygythiad yn asesiad cychwynnol Rhestr Data Coch y DU ac mae wedi cael ei gynnwys yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Benfro.

Dim ond ar 8 safle (hyd y gwyddom) **ar y blaned gyfan** y mae'r rhywogaeth hon i'w gweld erbyn hyn, ac mae 7 ohonynt yn Sir Benfro!

Casglwyd samplau ar gyfer dadansoddiad DNA ac rydym yn gobeithio y bydd prosiect posibl yn y dyfodol yn ein galluogi i ddeall mwy am ecoleg a gofynion cadwraeth *Cryptomyces maximus*.

Trevor Theobald
Cyngor Sir Penfro



Ffwng *Cryptomyces maximus*
Llun: Trevor Theobald

Lansio DVD am Gaiacio Môr yng Nghymru

Mae DVD a ffilm ar-lein newydd sy'n ceisio dod â chaiacio môr a chadwraeth at ei gilydd wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer pawb sy'n padlo yng Nghymru.

Mae mwy a mwy o bobl yn darganfod mai caiacio ar y môr, yn ei holl wahanol ffurfiau, yw un o'r ffyrdd gorau o fwynhau'r arfordir, cyrraedd traethau a phentiroedd anghysbell a dal pysgod. Â chlogwyni arfordirol trawiadol, aberoedd tawel ac ynysoedd hudolus, mae Cymru'n cynnig cyfleoedd heb eu hail ar gyfer caiacio môr o bob math, o dripiâu byr i'r teulu ar gaiacau 'eistedd ar y top', i deithiau am fwy nag un diwrnod mewn caiacau môr datblygedig mewn dyfroedd sy'n cynnig mwy o her.

Mae morlin Cymru o bwysigrwydd rhyngwladol oherwydd y bywyd gwyllt sydd i'w gael yn y môr ac ar yr arfordir, â heidiau mawr o adar môr yn nythu ar y clogwyni, morloi llwydion a llawer o rywogaethau o forfilod – sydd i gyd yn cael eu diogelu drwy ddeddfwriaeth rhag unrhyw aflonyddu. Mae rhan helaeth o'r morlin a llawer o amgylcheddau morol wedi eu diogelu fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

Yn ôl Tom Luddington o grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro, *"Cynhyrchwyd y ffilm fer hon ar gyfer pawb sy'n padlo er mwyn codi ymwybyddiaeth o rai o'r rhywogaethau morol anhygoel rydych yn debygol o'u gweld yma yng Nghymru, i'ch annog i fynd allan a mwynhau bywyd gwyllt, a hefyd i gael cyngor gan yr arbenigwyr nid yn unig ynglŷn â sut i gadw'n ddiogel, ond hefyd ynglŷn â sut i wneud yn siŵr ein bod yn cynllunio ymlaen llaw er mwyn amharu cyn lleied ag sy'n bosibl ar fywyd gwyllt."* Mae rhai rhannau o'r arfordir yng Nghymru, yn enwedig yr ynysoedd, mor bwysig i fywyd gwyllt fel bod cyfyngiadau yn gwahardd pobl rhag glanio ym mhob man er mwyn sicrhau nad ydym yn aflonyddu ar fywyd gwyllt.



Bydd 2000 o gopiâu caled o'r DVD yn cael eu dosbarthu i ganolfannau a chlybiau caiacio, ac i siopau, a gellir gweld fersiwn ar-lein ar wefan Siarter Awyr Agored Sir Benfro. I gael rhagor o wybodaeth am y DVD, *Sea Kayaking in Wales*, neu i wyllo ar-lein / archebu copi ewch i <http://www.pembrokeshireoutdoors.org.uk/news/> neu cysylltwch â swyddog y Siarter Awyr Agored drwy ffonio 01646 696134 neu anfon ebost i: pcf@mhpa.co.uk

Jodie McGregor

Fforwm Arfordir Sir Benfro

Y Cynllun Gwenyn

Roedd y Cyngor Cefn Gwlad (gynt) wedi treialu cynllun rheoli cynefinoedd yn Sir Benfro, gan ganolbwyntio ar anghenion gwenyn mêl a gwenyn gwyllt. Yn y cynllun peilot (y "Cynllun Gwenyn") targedwyd caeau unigol neu glystyrau o gaeau ar gyfer eu rheoli a'u gwarchod er budd gwenyn. Roedd y rhain yn gysylltiedig â gwenynfeydd a oedd yn bodoli'n barod, neu wenynefeydd newydd, neu safleoedd â phoblogaethau pwysig o wenynefeydd gwyllt.

Dewiswyd arferion rheoli a oedd yn ystyriol o wenynefeydd o nifer o wahanol ddewisiadau. Roedd y rhain yn cynnwys rheoli dolydd ar gyfer planhigion neithdar, ardaloedd o laswellt garw ar gyfer nythod cacwn, creu pyllau dŵr, cloddiau pridd a phren wedi pydru ar gyfer



Cardwenynen
Llun: Jon Hudson



turio, a hau planhigion llawn neithdar ar gyrion caeau âr.

Dim ond ychydig o gytundebau rheoli a luniwyd ar y cyd â gwenynwyr a ffermwyr. Nid oedd llawer o arian i'w wario ar safleoedd heb eu dynodi. Roedd y cytundebau am gyfnod o 5 mlynedd a thargedwyd taliadau er mwyn adlewyrchu'r cynnydd yn y costau i berchenogion y tir o ganlyniad i addasu arferion rheoli. Roedd costau cysylltiedig, megis ffensio o amgylch gwenynfeydd, yn gymwys ar gyfer taliad.

Pe bai'r prosiect wedi datblygu ymhellach byddai hefyd wedi ceisio helpu gwenynwyr i ddod o hyd i safleoedd newydd addas ar gyfer gwenynfeydd a chynnal diwrnodau agored a digwyddiadau hyfforddi.

Roedd cynlluniau i ddatblygu brand ar gyfer mêl o safleoedd y prosiect ac i ychwanegu gwerth at fêl a gynhyrchwyd drwy ddulliau a oedd yn ystyriol o gadwraeth, gan wella hyfywedd hirdymor y fenter.

O safbwynt ehangach cyfrannodd y cynllun at nifer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae nifer fawr o safleoedd glaswelltir ansawdd uchel y tu allan i'r rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig. Maent i'w gweld fel caeau/clystyrau bychain ar eu pen eu hunain ac yn aml iawn, o ganlyniad, nid ydynt yn cael eu


cynnwys mewn Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol. Mae'r Cynllun Gwenyn wedi helpu i roi mwy o werth i laswelltir o'r fath a'i wneud yn fwy hyfyw o safbwynt economaidd. Mae hefyd wedi darparu arddangosiad ymarferol o'r dull 'nwyddau a gwasanaethau ecosystemau'.

Yn fwyaf penodol roedd y cynllun yn ceisio hybu *Apis mellifera mellifera*, gwenyn mêl brodorol y cyfeirir atynt hefyd fel gwenyn mêl "Duon Cymreig" – â chysylltiadau amlwg â dulliau ffermio a rheoli gwartheg a glaswelltir yng Nghymru.

Hoffai'r Swyddogion Cadwraeth yn sefydliad newydd Cyfoeth Naturiol Cymru glywed gan unrhyw un sy'n berchen ar safleoedd addas neu sy'n rheoli safleoedd o'r fath ac a fyddai â diddordeb mewn rheoli eu tir er budd Gwenyn. Os bydd digon o ddiddordeb, efallai y bydd modd atgyfodi'r cynllun i gynnig cymorth gwerthfawr i boblogaeth Gwenyn y Sir.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, ac os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Jon Hudson, Uwch Swyddog Cadwraeth Cyfoeth Naturiol Cymru (01646 624000).

Jon Hudson
Cyfoeth Naturiol Cymru



Glaswelltir sy'n addas i Wenyn
Llun: Jon Hudson



Amffibiaid ac Ymlusgiaid yn cael Help Llaw

Mae Comin Dowrog (gwarchodfa natur 242 acer ger Tyddewi yn Sir Benfro) wedi elwa yn ddiweddar o ganlyniad i gyllid i greu rhwydwaith o lynnoedd a phyllau bas newydd. Daeth y rhan fwyaf o'r arian ar gyfer y gwaith hwn gan gorff cadwraeth - *Amphibian & Reptile Conservation* - er bod cyfraniad hael gan yr *Ŵyl Really Wild* (sefydliad yn cael ei arwain gan y gymuned leol) wedi galluogi'r prosiect i fynd fymryn bach ymhellach.

Mae wyth darn newydd o ddŵr agored wedi cael eu creu mewn lleoliadau gwahanol ar y warchodfa, a'r brif nod yw darparu mwy o gynefinoedd addas i rywogaethau fel brogaod, llyffantod, madfallod, gwiberod a nadroedd y gwair. Bydd rhywogaethau o blanhigion dŵr hefyd yn cael budd o'r gwaith hwn, a'r gobaith yw y bydd rhywogaethau prin fel crafanc-y-frân dridarn a'r pelenllys gronnynog, sydd i'w cael yn barod ar y Comin, yn gallu ymledu. Cadwyd y pridd a godwyd o'r cloddiadau hyn ar y safle i greu cloddiau yn wynebu'r de, sy'n lleoedd delfrydol i ymlusgiaid fel y wiber a'r fadfall, sy'n hoffi gorwedd yn yr haul.

Cynefin Newydd yng Nghomin Dowrog
Llun: Nathan Walton



Cymerodd bedwar diwrnod i wneud y gwaith a dim ond JCB ar draciau a gyrrwr dewr oedd ei angen. Rwy'n dweud dewr gan fod rhai rhannau o'r warchodfa'n llawer gwlypach nag yr oeddem yn ei feddwl! Er hyn, mae gennym



Gwaith yn cael ei wneud ar y Comin
Llun: Nathan Walton

bellach nifer dda o byllau dŵr ar y warchodfa ar gyfer y planhigion a'r anifeiliaid sy'n dibynnu arnynt.

Nathan Walton

Swyddog Ymddiriedolaeth Natur Sir Benfro

Clefyd Coed Ynn: Y Diweddaraf

Ers yr erthygl yn y cylchlythyr diwethaf, ac ar adeg ysgrifennu hyn, mae Clefyd Coed Ynn wedi cael ei ddarganfod ar dri safle yn Sir Benfro. Roedd y tri'n safleoedd plannu newydd ac ymdriniwyd â hwy dan ganllawiau'r Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd.

Mae Cyngor Sir Penfro'n bwriadu edrych yn ôl ar bob cynllun plannu sydd wedi bod dan ei reolaeth er 2009 fel mesur rhagofalus a gofynnir i berchnogion tir eraill gadw llygad ar eu coed.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: <http://www.fera.defra.gov.uk/plants/plantHealth/pestsDiseases/chalaraInfo.cfm>

Ant Rogers

Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth



Cyfarfod Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro 2013

Ar 19 Ebrill, cynhaliodd Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro ei chyfarfod blynyddol. Roedd hwn yn gyfle i'r sefydliadau a'r unigolion sy'n cyfrannu tuag at waith y Bartneriaeth gyfarfod ei gilydd a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Cyflwynwyd diweddariadau ffurfiol gan y Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Cyngor Sir Penfro, Seasearch Pembrokeshire, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Cafwyd cyflwyniad hefyd gan Mark Barber o Amphibian and Reptile Conservation Trust am eu prosiectau yng Ngorllewin Cymru.

Mae'r digwyddiad blynyddol yn helpu i gael unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb mewn gwarchod bioamrywiaeth i ganolbwyntio ar gydgyssylltu gwaith sy'n cael ei wneud yn barod a sefydlu camau newydd a fydd yn cyfrannu tuag at nodau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol er mwyn diogelu a gwella bioamrywiaeth yn Sir Benfro.

Os hoffech wybod mwy, neu os ydych yn teimlo y gallwch gyfrannu tuag at waith y Bartneriaeth, cysylltwch ag Ant Rogers, Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth ar 01437 764551 neu anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk

Ant Rogers

Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth



Cllr Huw George.
Llun: Trevor Theobald

Arolwg Gerddi 2013

Gall gerddi fod yn adnodd gwych i fioamrywiaeth. Maent yn darparu cerrig camu mewn ardaloedd trefol y gall rhywogaethau symudol eu defnyddio i symud o un cynefin addas i un arall ac yn aml iawn maent yn cynnwys nifer o wahanol gynefinoedd fel nodweddion dŵr, borderi o lwyni, borderi blodau, sypiau o gerrig a choed, sypiau o gompost a siediau / adeiladau. Gall y rhain gefnogi ystod eang o blanhigion ac anifeiliaid. Amcangyfrifir bod gardd bywyd gwyllt gyffredin yn gallu cynnal tua 3,000 o rywogaethau. Â thros 15 miliwn o erddi domestig yn y DU (tua 3% o arwynebedd y tir), mae'n amlwg cymaint y gallai gerddi ei wneud i helpu i ddiogelu bioamrywiaeth.

Y problem yw nad oes llawer o wybodaeth ar gael ynglŷn â pha rywogaethau sydd i'w cael mewn gerddi domestig yn Sir Benfro. Dyma lle gallwch chi helpu!

Mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru newydd lansio Arolwg o Erddi Sir Benfro ar y cyd â Phartneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro. Gallwch lwytho'r arolwg syml i lawr o: <http://www.welshwildlife.org/> neu gallwch ofyn am gopi caled ohono gan Nathan Walton, Swyddog Ymddiriedolaeth Natur, Canolfan Natur Cymru, Cilgerran, Sir Benfro, SA43 2TB. Nid yw'n cymryd llawer o amser i'w lenwi ac mae'n cynnwys dolenni cyswllt sy'n eich cyfeirio at ganllawiau adnabod hawdd eu defnyddio os nad ydych yn siŵr beth rydych wedi dod o hyd iddo.

Bydd y data a gesglir yn cael eu dadansoddi i helpu i lunio camau gweithredu er mwyn cyrraedd targedau ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynefin Trefol / Tir Llwyd. Mae'n werth i chi gymryd rhan!

Ant Rogers

Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth.



Cynllun Datblygu Newydd i Gyngor Sir Penfro

A map of the Cynllunio Ddwy area, showing the coastline and surrounding land. The map is divided into two sections by a horizontal line. The top section is labeled 'Cynllunio Ddwy' and the bottom section is labeled 'Cynllun Ddwy'. The map shows the coastline of the Cynllunio Ddwy area, with labels for 'Mastlebridge', 'Honeyborough', 'Neyland', 'Burton', 'Llanstadwell', 'Walesco', 'Cannellon', 'Llanvorn', 'Pembroke Dock', 'High St', and 'Seaford St'. The map is a light green color with black outlines for the coastline and roads.

- Prif Dderbynfa Neuadd y Sir, Freeman's Way, Hwlfordd (9am - 5pm, Llun i Gwener); a

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun, anfonwch ebost i:
ldp@pembrokeshire.gov.uk

Guide to Waxcaps in Pembrokeshire

species. The first print run was limited due to expected minor taxonomic revisions resulting from planned DNA work this year. The key will be made more readily available in due course. For more information, visit:
<http://www.pembfungi.org.uk/>

Digwyddiadau Bioamrywiaeth Mai



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
5 Mai	Taith Gerdded Côr y Bore Bach. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Beth am godi gyda'r wawr yng Nghwm Gwaun a gwrando ar gerddorfa natur? Dewch â fflasg a dillad cynnes. Rhaid archebu ymlaen llaw.	01834 845040
5 Mai	Taith Gerdded Côr y Bore Bach. Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru.	Ymunwch â ni i ddathlu bore ysbrydoledig a chlywed cân yr adar gyda'r arbenigwr adar Mike Snow a Nathan Walton , Swyddog Ymddiriedolaeth Natur Sir Benfro. Bydd y daith yn cychwyn am 4am o brif faes parcio Corsydd Teifi.	01239 621600
6 Mai	Y cyfnos yn Llys yr Esgob Llandyfái. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Dewch i archwilio'r adeilad rhyfeddol hwn a gweld y bywyd gwyllt sydd o'i gwmpas ar derfyn dydd. Hwyl i'r teulu i gyd. Rhaid archebu ymlaen llaw.	01834 845040
7 Mai	Taith Gerdded o Bont Wiseman. Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru.	Taith gerdded yn ymweld â thir amaethyddol, coetir a chynefinoedd arfordirol yn cychwyn o Bont Wiseman.	01834 811742
9 a 10 Mai	Wildlife Observer Wales	Adar y môr i ddechreuwyd. Cwrs deuddydd.	0800 9776788
11 Mai	Taith Gerdded ar hyd Afon Cleddau. Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru.	Taith gerdded ar hyd Afon Cleddau gyda Grŵp Canol Sir Benfro, o Lanhuadain i'r Gelli.	01348 840617
20 Mai	Cerdded yn y Parc: Penmaen Dewi. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Taith gerdded chwe milltir, am ddiwrnod cyfan, i uchelfannau penrhyn Tyddewi. Cyfle i archwilio'r creigiau sy'n brigo i'r wyneb.	01437 720392
21 Mai	Prosiect Cacwn Castellmartin. Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru.	Bydd Sinead Lynch o'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn yn sôn am y prosiect a sut y gallwn helpu. Foundry House.	01646 680090
25 a 26 Mai	Bioblits ar Ystâd Ystagbwl	Digwyddiad cofnodi 24 awr â llawer o arbenigwyr yn ymdrin â phob un o'r prif gynefinoedd ar y safle.	01646 661359



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Mai - Mehefin



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
27 Mai	Y cyfnos yn Llys yr Esgob Llandyfái. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Dewch i archwilio'r adeilad rhyfeddol hwn a gweld y bywyd gwyllt sydd o'i gwmpas ar derfyn dydd. Hwyl i'r teulu i gyd. Rhaid archebu ymlaen llaw.	01834 845040
28 Mai	Ystlumod Anhygoel. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Taith sy'n addas i'r teulu i edrych am ystlumod ac i wrando ar eu galwadau yn Llys yr Esgob, Tyddewi. Dewch â fflachlamp. Rhaid archebu ymlaen llaw.	01834 845040.
29 Mai	Dal Crancod. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Gweithgaredd hwyliog i'r teulu cyfan. Plant rhaid iddynt fod gydag oedolyn. Rhaid archebu ymlaen llaw.	01834 845040.
29 Mai	Trychfilod a Bwystfilod yng Nghastell Henllys.	Dewch i chwilio am y creaduriaid bach rhyfedd sy'n byw yng nghilfachau Castell Henllys. Gwell archebu ymlaen llaw.	01239 891239
31 Mai	Trychfilod, Bwystfilod, Adar neu Flodau. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Ymunwch â ni i chwilota o amgylch Castell Caeriw i ddarganfod y creaduriaid cudd sy'n byw yno, neu'r adar sy'n defnyddio pwll y felin a'r ddyfrffordd neu'r blodau sy'n tyfu o amgylch y safle.	01646 651782
6 – 8 Mehefin	Wildlife Observer Wales	Monitro adar y môr.	08009 776788
8 – 16 Mehefin	Wythnos Bioamrywiaeth Cymru	Cadwch lygad am ddigwyddiadau yr wythnos hon. Edrychwch ar ein tudalen Facebook neu cysylltwch ag Ant Rogers.	01437 764551
15 Mehefin	Diwrnod Adnabod Cacwn	Adnabod Cacwn yn Scolton Manor gyda Sinead Lynch. Rhaid archebu ymlaen llaw.	01437 764551
16 Mehefin	Taith Gerdded yng Nghwningar Ystagbwl. Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru.	Taith gerdded yng Nghwningar Ystagbwl gyda Bob Haycock.	01348 840617
23 Mehefin	Yn yr Afon. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Gweithgaredd i blant. Cyfle i fynd yn agos a chael gwybodaeth am fywyd yn yr afon yn Solfach. Dewch â'ch rhwydi eich hun, a gwisgwch welis neu jelis i gerdded i fyny gwely'r afon. Rhaid i blant fod gydag oedolyn.	01348 845040
24 Mehefin	Bywyd ar y Môr. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Drwy'r awyr, neu'r dŵr, mae llawer o greaduriaid yn ymweld ag Arfordir Sir Benfro. Mae ein parcmyn yn dda iawn am adnabod beth sy'n mynd heibio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, a chynlluniwyd y teithiau cerdded hyn i roi cliwiau i chi a fydd yn eich helpu i ddarganfod popeth, o lamhidydd i fulfran, ychydig yn haws.	01834 845040



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Mehefin - Awst



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
26 – 28 Mehefin	Wildlife Observer Wales	Morfilod. Cwrs tri diwrnod.	0800 9776788
29 Mehefin	Dal Crancod, Trefdraeth. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Gweithgaredd hwyliog i'r teulu cyfan. Plant rhaid iddynt fod gydag oedolyn. Rhaid archebu ymlaen llaw.	01834 845040
30 Mehefin	Yn yr Afon. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Gweithgaredd i Blant. Cyfle i fynd yn agos a chael gwybodaeth am fywyd yn yr afon yng Nghastell Henllys. Dewch â'ch rhwydi eich hun, a gwisgwch welis neu jelis i gerdded i fyni gwely'r afon. Rhaid i blant fod gydag oedolyn.	01348 845040
3 Gorffennaf	Taith Gerdded Gynnar i weld Dyfrgwn. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Taith gerdded hamddenol, ddwy filltir o hyd, yn gynnar yn y bore. Mae'r daith yn addas i deuluoedd ac yn mynd o gwmpas rhannau uchaf Llynnoedd Bosherton i chwilio am ddyfrgwn.	01646 661359
3 – 5 Gorffennaf	Wildlife Observer Wales	Morfilod. Cwrs tri diwrnod.	0800 9776788
24 – 26 Gorffennaf	Wildlife Observer Wales	Morfilod. Cwrs tri diwrnod.	0800 9776788
24 Gorffennaf	Trychfilod a Bwystfilod. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Dewch i chwilio am y creaduriaid bach rhyfedd sy'n byw yng nghilfachau Castell Henllys. Gwell archebu ymlaen llaw.	01239 891239
29 Gorffennaf	Bywyd ar y Môr. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Taith gerdded ar Bentir St Ann. Cynlluniwyd y teithiau cerdded hyn i roi cliwiau i chi a fydd yn eich helpu i ddarganfod popeth, o lamhidydd i fulfran, ychydig yn haws. Rhaid archebu ymlaen llaw.	01834 845040
30 Gorffennaf	Yn yr Afon. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Gweithgaredd i blant. Cyfle i fynd yn agos a chael gwybodaeth am fywyd yn yr afon. Dewch â'ch rhwydi eich hun, a gwisgwch welis neu jelis i gerdded i fyni gwely'r afon. Rhaid i blant fod gydag oedolyn. Rhaid archebu ymlaen llaw.	01348 845040
31 Gorffennaf	Trychfilod a Bwystfilod. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Dewch i chwilio am y creaduriaid bach rhyfedd sy'n byw yng nghilfachau Castell Henllys. Gwell archebu ymlaen llaw.	01239 891239
6 Awst	Saffari Pyllau Dŵr, Traeth Dwyrain Freshwater. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Gweithgaredd hwyliog i'r teulu cyfan. Cyfle i fynd yn agos a darganfod y bywyd gwyllt rhyfeddol ym mhwl dŵr newydd y Parc Cenedlaethol yn Nwyrain Freshwater. Rhaid cael welingtons.	01834 845040



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Awst



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
6 Awst	Ystlumod Anhygoel, Nyfer. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Taith sy'n addas i'r teulu i edrych am ystlumod ac i wrando ar eu galwadau. Dewch â fflachlamp. Rhaid archebu ymlaen llaw.	01834 845040
7 Awst	Taith Gerdded Gynnar i weld Dyfrgwn, Ystagbwl. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Taith gerdded hamddenol, ddwy filltir o hyd, yn gynnar yn y bore. Mae'r daith yn addas i deuluoedd ac yn mynd o gwmpas rhannau uchaf Llynnoedd Bosherton i chwilio am ddyfrgwn.	01646661359
7 Awst	Trychfilod a Bwystfilod. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Dewch i chwilio am y creaduriaid bach rhyfedd sy'n byw yng nghilfachau Castell Henllys. Gwell archebu ymlaen llaw.	01239 891239
8 Awst	Bywyd Preifat Pwll Dŵr, Gardd Coetir Colby. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Cyfle i fynd yn agos a darganfod y bywyd gwyllt rhyfeddol yn nentydd a phyllau dŵr Colby. Gweithgareddau ymarferol a hwyl i'r teulu drwy'r dydd.	01834 811885
12 Awst	Bywyd ar y Môr. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Taith gerdded ar Bentir St Ann. Cynlluniwyd y teithiau cerdded hyn i roi cliwiau i chi a fydd yn eich helpu i ddarganfod popeth, o lamhdydd i fulfran, ychydig yn haws. Rhaid archebu ymlaen llaw.	01834 845040
13 Awst	Dal Crancod, Porthclais. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Gweithgaredd hwyliog i'r teulu cyfan. Plant rhaid iddynt fod gydag oedolyn. Rhaid archebu ymlaen llaw.	01834 845040
13 Awst	Yn yr Afon. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Gweithgaredd i blant. Cyfle i fynd yn agos a chael gwybodaeth am fywyd yn yr afon yn Nhyddewi. Dewch â'ch rhwydi eich hun, a gwisgwch welis neu jelis i gerdded i fyny gwely'r afon. Rhaid i blant fod gydag oedolyn.	01348 845050
13 Awst	Ystlumod Anhygoel, Sain Ffred. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Taith sy'n addas i'r teulu i edrych am ystlumod ac i wrando ar eu galwadau. Dewch â fflachlamp. Rhaid archebu ymlaen llaw.	01834 845050
14 Awst	Trychfilod a Bwystfilod. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Dewch i chwilio am y creaduriaid bach rhyfedd sy'n byw yng nghilfachau Castell Henllys. Gwell archebu ymlaen llaw.	01239 891239



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Awst




Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
14 Awst	Dal Crancod, Llandudoch. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Gweithgaredd hwyliog i'r teulu cyfan. Rhaid i blant fod gydag oedolyn. Rhaid archebu ymlaen llaw.	01834 845040
14 Awst	Ystlumod Anhygoel, Orielson. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Taith sy'n addas i'r teulu i edrych am ystlumod ac i wrando ar eu galwadau ar declynnau gwrandio arbennig, a chyfle i ddysgu am eu ffyrdd anarferol o fyw. Dewch â fflachlamp.	01834 845040
16 Awst	Trychfilod, Bwystfilod, Adar neu Flodau. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Ymunwch â ni i chwilota o amgylch Castell Caerw i ddarganfod y creaduriaid cudd sy'n byw yno, neu'r adar sy'n defnyddio pwll y felin a'r ddyfrffordd neu'r blodau sy'n tyfu o amgylch y safle.	01646 651782
20 Awst	Saffari Pyllau Dŵr, Dwyrain Freshwater. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Gweithgaredd hwyliog i'r teulu cyfan. Cyfle i fynd yn agos a darganfod y bywyd gwyllt rhyfeddol ym mhwyll dŵr newydd y Parc Cenedlaethol yn Nwyrain Freshwater. Rhaid cael welingtons.	01834 845040
20 Awst	Ystlumod Anhygoel, Castell Henllys. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Taith sy'n addas i'r teulu i edrych am ystlumod ac i wrando ar eu galwadau ar declynnau gwrandio arbennig, a chyfle i ddysgu am eu ffyrdd anarferol o fyw. Dewch â fflachlamp.	01239 891239
21 Awst	Trychfilod a Bwystfilod. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Dewch i chwilio am y creaduriaid bach rhyfedd sy'n byw yng nghilfachau Castell Henllys. Gwell archebu ymlaen llaw.	01239 891239
21 Awst	Dal Crancod, Melin Caerw. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Gweithgaredd hwyliog i'r teulu cyfan. Plant rhaid i blant fod gydag oedolyn. Rhaid archebu ymlaen llaw.	01834 845040
21 Awst	Ystlumod Anhygoel, Orielson. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Taith sy'n addas i'r teulu i edrych am ystlumod ac i wrando ar eu galwadau ar declynnau gwrandio arbennig, a chyfle i ddysgu am eu ffyrdd anarferol o fyw. Dewch â fflachlamp.	01834 845040
22 Awst	Bywyd Preifat Pwll Dŵr, Gardd Coetir Colby. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Cyfle i fynd yn agos a darganfod y bywyd gwyllt rhyfeddol yn nentydd a phyllau dŵr Colby. Gweithgareddau ymarferol a hwyl i'r teulu drwy'r dydd.	01834 811885



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Awst



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
23 Awst	Trychfilod, Bwystfilod, Adar neu Flodau. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Ymunwch â ni i chwilota o amgylch Castell Caerw i ddarganfod y creaduriaid cudd sy'n byw yno, neu'r adar sy'n defnyddio pwll y felin a'r ddyfrffordd neu'r blodau sy'n tyfu o amgylch y safle.	01646 651782
23 Awst	Yn yr Afon. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Gweithgaredd i blant. Cyfle i fynd yn agos a chael gwybodaeth am fywyd yn yr afon yn Abergwaun. Dewch â'ch rhwydi eich hun, a gwisgwch welis neu jelis i gerdded i fyni gwely'r afon. Rhaid i blant fod gydag oedolyn.	01348 845040
27 Awst	Dal Crancod, Porthclais. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Gweithgaredd hwyliog i'r teulu cyfan. Plant rhaid i blant fod gydag oedolyn. Rhaid archebu ymlaen llaw.	01834 845040
27 Awst	Ystlumod Anhygoel, Tyddewi. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Taith sy'n addas i'r teulu i edrych am ystlumod ac i wrando ar eu galwadau ar declynnau gwranddo arbennig, a chyfle i ddysgu am eu ffyrdd anarferol o fyw. Dewch â fflachlamp.	01834 845040
28 Awst	Trychfilod a Bwystfilod. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Dewch i chwilio am y creaduriaid bach rhyfedd sy'n byw yng nghilfachau Castell Henllys. Gwell archebu ymlaen llaw.	01239 891239
28 Awst	Dal Crancod, Abergwaun. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Gweithgaredd hwyliog i'r teulu cyfan. Rhaid i blant fod gydag oedolyn. Rhaid archebu ymlaen llaw.	01834 845040
30 Awst	Trychfilod, Bwystfilod, Adar neu Flodau. Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.	Ymunwch â ni i chwilota o amgylch Castell Caerw i ddarganfod y creaduriaid cudd sy'n byw yno, neu'r adar sy'n defnyddio pwll y felin a'r ddyfrffordd neu'r blodau sy'n tyfu o amgylch y safle.	01646 651782



Pembrokeshire Garden Wildlife Survey

Welcome to Pembrokeshire Biodiversity Partnerships's Garden Wildlife Survey which aims to discover the hidden wildlife in Pembrokeshire. The Partnership cannot achieve this alone, so we are asking you to get involved in the survey by telling us about the wildlife you see using your garden (e.g. nesting, feeding, etc.). You can find links to identification guides on the next page.

About you

Date:

Name:

Address:

Postcode:

Telephone:

Email:

We will ensure that all personal information is kept strictly confidential and will not be forwarded onto third parties.

About your Garden



Location

Please tick

- ☐ Urban ☐ Rural ☐ Suburban

Garden Habitats

Please tick

- ☐ Lawn ☐ Wild Area ☐ Trees
☐ Fruit Trees ☐ Pond ☐ Flower Bed
☐ Bramble Patch ☐ Shrub ☐ Compost Bin
☐ Log Pile ☐ Hedge ☐ Window Box
☐ Stone wall ☐ Sheds / Garden buildings

Features

How many

- Bird Feeder ☐ Bird Nest Box ☐ Bat Box ☐
 Bumblebee Nest Box ☐ Other Insect Nest Box ☐

Activities

How often do you cut the grass? *How many*
 times a week ☐ times a month ☐ times a year ☐

What food do you feed the birds? *Please tick*

- ☐ Peanuts ☐ Niger seed ☐ Wild bird seed mix
☐ Fat balls ☐ Kitchen scraps ☐ Sunflower seeds

Do you use slug pellets? ☐ Yes ☐ No

Do you feed birds all year round? ☐ Yes

☐ Just in winter ☐ Just in Summer

To help in this survey, simply fill in this form and return to the address at the end. Your input will help us collect valuable information about the status and distribution of important Welsh wildlife right here in Pembrokeshire.

Many thanks

What animals have you seen using your Garden?

Birds

Please tick

- | | |
|--|---|
| ☐ Grey Heron | ☐ Sparrow Hawk |
| ☐ House Martin | ☐ Swift |
| ☐ Song Thrush | ☐ Blackcap |
| ☐ Long-tailed Tit | ☐ Blue Tit |
| ☐ Magpie | ☐ Jackdaw |
| ☐ Greenfinch | ☐ Goldfinch |
| ☐ Tawny Owl | ☐ Great Spotted Woodpecker |
| ☐ Pied Wagtail | ☐ Grey Wagtail |
| ☐ Chiffchaff | ☐ Willow Warbler |
| ☐ Coal Tit | ☐ Nuthatch |
| ☐ Crow | ☐ Starling |
| ☐ Bullfinch | ☐ Goldcrest |
| ☐ Wren | ☐ Jay |
| ☐ Blackbird | ☐ House Sparrow |
| ☐ Dunnock | ☐ Chaffinch |
| ☐ Robin | ☐ Great Tit |
| ☐ Swallow | |

Other please specify:

Mammals

Please tick

- | | |
|---|--|
| ☐ Wood Mouse | ☐ House Mouse |
| ☐ Rat | ☐ Grey Squirrel |
| ☐ Badger | ☐ Vole |
| ☐ Hedgehog | ☐ Fox |
| ☐ Mole | ☐ Bats in attic |
| ☐ Bats in garden | |

Other please specify:

Reptiles and Amphibians

Please tick

- | | |
|---------------------------------------|---------------------------------|
| ☐ Grass Snake | ☐ Toad |
| ☐ Palmate Newt | ☐ Frog |
| ☐ Adder | ☐ Lizard |
| ☐ Slow Worm | |

Bees

Please tick

- ☐ Yes ☐ No

Butterflies

Please tick

- | | |
|--|--|
| ☐ Large White | ☐ Small White |
| ☐ Green-veined White | ☐ Orange Tip |
| ☐ Common Blue | ☐ Painted Lady |
| ☐ Marbled White | ☐ Ringlet |
| ☐ Gatekeeper | ☐ Comma |
| ☐ Peacock | ☐ Red Admiral |
| ☐ Small Tortoiseshell | ☐ Speckled Wood |
| ☐ Brown Hairstreak | |

Other please specify:

Dragonflies & Damselflies

- ☐ Yes ☐ No

Identification guides:

- Birds: <http://www.rspb.org.uk/wildlife/birdidentifier> / <http://www.birdid.co.uk>
Mammals: http://www.ptes.org/files/296_morid07.pdf
Amphibians & reptiles: <http://www.arc-trust.org/animals>
Butterflies: <http://butterfly-conservation.org/50/identify-a-butterfly.html>

If you have seen other or unusual wildlife in your garden, please use the space below to let us know, or send us a list and/or photograph with your form.

SUBMIT SURVEY

To submit this form by email, please save a copy to your computer and attach it in an email to:

info@welshwildlife.org

Alternatively, please return completed form to:

The Pembrokeshire Wildlife Garden Survey,
Wildlife Trust of South and West Wales,
The Welsh Wildlife Centre, Cilgerran,
Pembrokeshire, SA43 2TB

Are you a member of any conservation/ environmental organisation (e.g. Wildlife Trust, RSPB, National Trust)?

- ☐ No ☐ Yes - please state:

Thank you for your help with this information. The data collected will go some way in determining the variety and abundance of wildlife found in Pembrokeshire's gardens.

The Pembrokeshire Biodiversity Partnership will hold your details only for the purposes of the Pembrokeshire Garden Wildlife Survey. To find out more about the work of the Pembrokeshire Biodiversity Partnership, please visit:

http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=1626,109,135&parent_directory_id=646

or look for its page on Facebook.

For any further information regarding the survey please contact the Wildlife Trust of South and West Wales on 01239 621212. To find out more about the work of the Wildlife Trust of South and West Wales and membership packages, please visit: www.welshwildlife.org

If you would like to receive a quarterly Biodiversity newsletter for Pembrokeshire via e-mail, please tick this box ☐

All completed garden wildlife forms received by the 15th December 2013 will be entered into a prize draw to win a wildlife gardening pack, including a wildlife gardening book, bird box and feeder.



Cylchlythyrau Bioamrywiaeth

This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.

Hoffai PBSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.

Manylion Cysylltu PBSB

- **Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth**, Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Bioamrywiaeth Sir Benfro gwefan www.pembrokeshire.gov.uk (chwilio - bioamrywiaeth)
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

Aelodau PBSB

Cymdeithas y Tirfeddianwyr		
Undeb Amaethwyr Cymru		Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro 
Grwp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwylt		Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 
Cadwch Gymru'n Daclys		Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu 
 MANOR HOUSE Wildlife Park		Ymddiriedolaeth y Tywysog - Cymru 
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr – Cymru		Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar 
Cyfoeth Naturiol Cymru		Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 
Cymdeithas Gymunedol Gyfyngedig 21C Sir Benfro		 Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cyngor Sir Penfro		Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorrlewin Cymru 



Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Tudalen

